

**Cyfeirnod:** IR768

**Dyddiad cyhoeddi:** 2 Chwefror 2021

## Ymchwiliad i grantiau Llywodraeth Cymru i gwmnïau preifat

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod 5 Ionawr 2021 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am ein Cofrestr Contractau.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

**Rwyf am gyflwyno cais am rywfaint o wybodaeth gan y sefydliad, mewn perthynas â chofrestr eu contract. Dylai'r gofrestr contract LLAWN arddangos yr holl sefydliadau sy'n bodoli eisoes/contractau. Hoffwn i'r gofrestr arddangos y colofnau/penawdau canlynol:**

1. **Cyfeirnod y Contract** amh
2. **Teitl y Contract** Gweler 'Enw'r contract' yn amgaeedig
3. **Categori Caffael** amh
4. **Enw'r Cyflenwr** Gweler yn amgaeedig
5. **Gwariant (Cyfanswm neu Flynyddol)** Gweler y golofn 'Gwariant blynyddol' sydd wedi'i labelu yn amgaeedig
6. **Hyd y Contract** Gweler y golofn 'Tymor contract cychwynnol' yn amgaeedig
7. **Estyniadau i'r Contract** Gweler y golofn 'Dewisiadau ymestyn ar gael' yn amgaeedig
8. **Dyddiad Dechrau'r Contract** Gweler y golofn 'Dechrau' yn amgaeedig
9. **Dyddiad Dod i Ben** Gweler y golofn 'Cychwynnol/Estyniad/Dod i Ben' yn amgaeedig

**10. Disgrifiad o'r Contract [Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i mi.]** Nid oes gennym ragor o fanylion yn y gofrestr, y tu hwnt i'r disgrifiad o dan 'Enw'r contract'

**11. Cysylltu â'r Perchennog (Manylion cyswllt llawn os yn bosibl.)** Rheolir pob contract gan ein Hadran Gwasanaethau Busnes yn Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, Gwasanaethau.Busnes@archwilio.cymru, 02920 320500

**12. Codau CPV/ProClass amh**

Manylion Cyswllt Data Contract/API

**13. A allwch hefyd roi manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am gofrestr y contract ei hun neu rywun sy'n gyfrifol am API? [Enw, Teitl y swydd, ffôn, cyfeiriad e-bost] O leiaf, rhowch deitl eu swydd gyfredol i mi.**

**(Ystyr API "cyfres o swyddogaethau a gweithdrefnau sy'n caniatáu creu ceisiadau sy'n cyrchu nodweddion neu ddata system weithredu, cymhwysiad neu wasanaeth arall.")**

Rydym yn cadw rhywfaint o wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani uchod ac mae taenlen wedi'i hamgáu ar ffurf excel yn ôl y gofyn, sy'n ymgorffori'r wybodaeth a gedwir. Sylwer nad ydym yn cofnodi perchennog y contract, cod CPV na chyfeirnod.

Rheolir pob contract gan ein Hadran Gwasanaethau Busnes yn Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, Gwasanaethau.Busnes@archwilio.cymru, 02920 320500 Gellir cyfeirio ymholiadau at Bennaeth Gwasanaethau Busnes.

Os hoffech ofyn am adolygiad mewnol ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, drwy e-bost at [martin.peters@archwilio.cymru](mailto:martin.peters@archwilio.cymru) neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais ai peidio yn unol â'r Ddeddf. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Tel: 01625 545745

Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi disbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath.

Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth:

<https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth